Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y BROSES AR GYFER NODI PARTHAU CADWRAETH MOROL YNG NGHYMRU

## CYNNWYS

**Rhestr o dermau** .......... **4**
**Rhan 1 CYFLWYNIAD** .......... **6**
Trosolwg .......... 6
Diben a Chwmpas .......... 6
Trosolwg o Fioamrywiaeth .......... 6
**RHAN 2 DATBLYGU RHWYDWAITH ECOLEGOL GYDLYNOL** .......... **8**
Beth yw ardal forol warchodedig? .......... 8
Cynllunio rhwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAs) 8
Manteision rhwydwaith MPAs sy'n ecolegol gydlynol ac wedi'i reoli'n dda .......... 9
Y Rhwydwaith Presennol o MPAs yng Nghymru .......... 10
Trefn y Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru .......... 12
Asesu cyfraniad MPAs Cymru tuag at rwydwaith y DU .......... 12
Tabl 1: Meini Prawf Asesu Rhwydwaith MPA Cymru .......... 14
Diffygion yn Rhwydwaith Cymru .......... 16
**RHAN 3 CWBLHAU CYFRANIAD CYMRU AT RWYDWAITH ECOLEGOL GYDLYNOL Y DU O MPAs** .......... **23**
Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid .......... 23
Grŵp Gorchwyl a Gorffen .......... 23
Y Broses ar gyfer Nodi Parthau Cadwraeth Morol .......... 24
**RHAN 4 TYSTIOLAETH** .......... **33**
Tystiolaeth Ecolegol ac Economaidd-gymdeithasol .......... 33
Galw am Ddata .......... 33
Hyder yn y Data .......... 33
Asesiadau Effaith .......... 34
**RHAN 5 RHEOLI PARTHAU CADWRAETH MOROL** .......... **35**
Amcanion Cadwraeth .......... 35
Rheoli .......... 35
**RHAN 6 GWAITH YN Y DYFODOL** .......... **36**
Rhywogaethau morol symudol iawn .......... 36
Parth Cadwraeth Morol Sgomer .......... 36

**Atodiad A. Y Rhwymedigaethau i Fioamrywiaeth Forol a'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ........ 37**

**Atodiad C. Asesiad o'r Rhwydwaith – nodweddion a chanlyniadau ........ 40**

**Atodiad D. Cylch Gorchwyl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ........ 45**

**Atodiad E. Ffynonellau Data ........ 47**

**Atodiad F. Maint Lleiaf y Llain Hyfyw ........ 49**

**Atodiad G. Canllawiau ar ffiniau i ystyried gweithgarwch pysgota ........ 50**

**Atodiad H. Cyflwyno data i gefnogi dynodi Parthau Cadwraeth Morol (PCMau) ........ 51**

## Rhestr o dermau

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Ardal Forol Warchodedig (MPA) | Term cyffredinol i gwmpasu pob ardal forol sy'n ofod daearyddol wedi'i ddiffinio'n glir, sy'n cael ei gydnabod, ei neilltuo a'i reoli, drwy ddulliau cyfreithiol neu ddulliau effeithiol eraill, er mwyn sicrhau cadwraeth natur ynghyd â'r gwasanaethau ecosystem a gwerthoedd diwylliannol cysylltiedig, i'r tymor hir |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) | Ardal wedi'i dynodi i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd. |
| Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) | Ardal sydd wedi'i dosbarthu i ddiogelu rhywogaethau adar o bwysigrwydd Ewropeaidd ac adar mudol sy'n ymweld yn rheolaidd. |
| Cramenogion | Grŵp amrywiol o anifeiliaid di-asgwrn-cefn, gan gynnwys crancod, cimychiaid, cimychiaid yr afon, perdys, corgimychiaid, cril, moch coed a chregyn llong. |
| Cyfradd | Mae cyfradd yn cyfeirio at gyfanswm yr arwynebedd yn y safle a feddiannir gan y nodwedd gymhwysol a rhaid iddo gynnwys ystyriaeth o'i ddosbarthiad. |
| Dogfen Brotocolau | Amlinelliad o sut y bydd CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn prosesu tystiolaeth ar gyfer proses Parthau Cadwraeth Morol Cymru |
| Dyfroedd Cymru | Yn cynnwys dyfroedd glannau Cymru, o farc y penllanw cymedrig i derfyn moroedd tiriogaethol 12 milltir forol, a dyfroedd alltraeth Cymru, rhwng y terfyn moroedd tiriogaethol 12 milltir forol a llinell ganol rhwng y DU-Iwerddon neu derfyn dyfroedd Gogledd Iwerddon. |
| Effaith | Canlyniad pwysau (e.e. diraddio cynefinoedd) lle mae newid yn digwydd sy'n wahanol i'r hyn a ddisgwylir o dan amodau naturiol. |
| EUNIS | System dosbarthu cynefinoedd Ewropeaidd, sy'n cwmpasu pob math o gynefinoedd o'r naturiol i'r artiffisial, ar y tir i ddŵr croyw a morol. |
| Grŵp Gorchwyl a Gorffen | Rhanddeiliaid sy'n gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur er mwyn nodi Parthau Cadwraeth Morol sy'n mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn nyfroedd Cymru |
| Gwarchod | Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r amcan cadwraeth a osodwyd, lle mae tystiolaeth yn dangos nad oes effaith ar briodoledd neu ei bod mewn cyflwr ffafriol. Mae'n debygol y bydd angen camau gweithredu gan reolwyr o hyd i gadw'r statws hwn. |
| Gweithgaredd | Gweithredodd neu ymdrechion dynol, cymdeithasol neu economaidd sy'n gallu dylanwadu ar yr amgylchedd morol, er enghraifft pysgota neu gynhyrchu ynni. |
| Mesurau Rheoli | Dulliau o reoli gweithgareddau o fewn Ardal Forol Gwarchodedig er mwyn cynnal neu wella cyflwr ei nodweddion. |
| Nodwedd | Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r Cynefin / Rhywogaeth / Daeareg / Geomorffoleg / nodwedd fawr sydd wedi'i dynodi yn y safle. |
| Parth Cadwraeth Morol (MCZ) | Parth wedi'i ddynodi i warchod rhywogaethau, cynefinoedd a phrosesau ecolegol o bwysigrwydd cenedlaethol a nodweddion o bwysigrwydd daearegol/geomorffolegol. |
| Pwysau | Mae pwysau'n fecanweithiau sy'n arwain at weithgaredd yn cael effaith ar nodwedd. |
| Rhwydwaith | Casgliad o MPAs neu warchodfeydd unigol sy'n gweithredu ar y cyd ac mewn ffordd synergaidd ar raddfeydd gofodol gwahanol a chydag ystod o lefelau gwarchod i gyflawni amcanion na all yr |

| | |
|---|---|
| | warchodfa eu cyflawni ar ei phen ei hun. Mae elfennau rhwydwaith sy'n ecolegol gydlynol yn cael eu hesbonio yn adran 1.15. |
| Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) | Safle wedi'i ddynodi i ddiogelu unrhyw ardal sydd o ddiddordeb arbennig oherwydd ei fflora, ffawna, daeareg neu ei ffisiograffeg. Dynodiadau arfordirol (ac ar y tir) yw'r rhain ac mae rhai safleoedd yn diogelu nodweddion morol. |
| Safleoedd Ramsar | Gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar. Dynodiadau arfordirol (ac ar y tir) yw'r rhain ac mae rhai safleoedd yn diogelu nodweddion morol. |
| Sensitifrwydd | Mae sensitifrwydd nodwedd (rhywogaeth neu gynefin) yn fesur sy'n dibynnu ar allu'r nodwedd i wrthsefyll newid a'i gallu i ymadfer ar ôl newid. |
| Teulu'r Morfil | Grŵp o famaliaid dyfrol sy'n cynnwys morfilod, dolffiniaid a llamidyddion. |

# Rhan 1 CYFLWYNIAD

## Trosolwg

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol[1]. Mae nodi a rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAs) i ffurfio rhwydwaith ecolegol gydlynol yn allweddol i gyfrannu at iechyd, cynhyrchiant a bioamrywiaeth yr ardal forol.

1.2 Mae Atodiad A yn disgrifio'r mecanweithiau cyfreithiol a'r adnoddau polisi ar gyfer darparu rhwydwaith ecolegol gydlynol o MPAs.

## Diben a Chwmpas

1.3 Mae'r ddogfen hon yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio ei phwerau o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Deddf y Môr) i nodi Parthau Cadwraeth Morol.

1.4 Maen nhw'n effeithio ar holl ddyfroedd Cymru (y glannau a'r môr mawr). Mae hyn yn adlewyrchu'r pwerau cadwraeth natur ar y môr (12 milltir forol i'r llinell ganol) a drosglwyddwyd i Weinidog Cymru yn 2018.

1.5 Mae'n disgrifio sut y bydd Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) yn cydweithio â rhanddeiliaid i nodi Parthau Cadwraeth Morol er mwyn cwblhau cyfraniad Cymru tuag at rwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

## Trosolwg o Fioamrywiaeth




1.6 Bioamrywiaeth yw amrywiaeth bywyd ar y Ddaear. Mae'n cynnwys holl rywogaethau planhigion ac anifeiliaid, eu niferoedd a'u hamrywiaeth genetig. Mae bioamrywiaeth yn helpu i gynnal bywyd ac mae'n sylfaen i'n bywydau a'n bywoliaeth drwy helpu i gynnal cadernid ecosystemau a'u gweithrediad.

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69322/pb3654-marine-policy-statement-110316.pdf

1.7 Mae bioamrywiaeth yn arwydd da o iechyd ecosystemau. Os oes amrywiaeth o fywyd ynddyn nhw, mae ein hecosystemau'n fwy tebygol o fod yn iachach a chryfach, ac o allu addasu ac ymateb i newid.

1.8 Mae moroedd Cymru yn ddeinamig ac yn gartref i amrywiaeth ysblennydd o fywyd morol, gan gynnwys gwymon, cramenogion, adar y môr a theulu'r morfil. Mae llawer o'n cynefinoedd a'n rhywogaethau o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol ac mae rhai'n cael eu diogelu am eu bod yn brin, dan fygythiad a/neu'n dirywio.

1.9 Mae gwerth cynhenid i foroedd Cymru ac maent yn ased pwysig i gymdeithas. Mae llawer o bobl yn eu defnyddio i ennill bywoliaeth, i’w mwynhau ac er eu lles personol. Mae'r amrywiaeth o fywyd y mae’n moroedd yn eu cynnal yn cyfoethogi'r amgylchedd ac yn galluogi ecosystemau morol i gyfrannu at Gymru gynaliadwy a ffyniannus drwy ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaethau hanfodol rydym yn dibynnu arnynt, gan gynnwys bwyd, swyddi, treftadaeth forol, ffynonellau ynni diogel a rheoleiddio ein hinsawdd.

1.10 Wrth i'r amgylchedd morol barhau dan bwysau, mae'n bwysig bod camau'n cael eu cymryd i gadw moroedd yn iach ac yn gryf, a bod adnoddau naturiol y môr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy nawr ac er budd cenedlaethau'r dyfodol.






## RHAN 2 DATBLYGU RHWYDWAITH ECOLEGOL GYDLYNOL

### Beth yw ardal forol warchodedig?

2.1 Mae ardal forol warchodedig (MPA) yn derm cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw ardal o'r môr neu'r glannau sy'n cael ei diogelu gan y gyfraith a'i rheoli er mwyn gwarchod cynefinoedd, rhywogaethau neu nodweddion naturiol eraill.

2.2 Mae MPAs yn cael eu dynodi o dan ddeddfau amrywiol. Gyda'i gilydd maent yn ffurfio rhwydwaith sy'n gallu darparu mwy o fanteision i'r amgylchedd morol na safleoedd unigol.

### Cynllunio rhwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAs)

2.3 Mae rhwydwaith MPA sydd wedi'i gynllunio a'i reoli'n dda yn cynnwys MPAs ag ynddynt ystod o gynefinoedd a rhywogaethau. Maent o faint addas ac wedi'u gwasgaru'n gyfartal i gysylltu cynefinoedd a rhywogaethau â'i gilydd.


2.4 Er mwyn helpu'r gwaith o gynllunio a datblygu rhwydwaith sy'n ecolegol gydlynol, mae Comisiwn OSPAR wedi datblygu canllawiau[2]. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â gweinyddiaethau eraill y DU, wedi defnyddio'r canllawiau hyn i ddatblygu egwyddorion er mwyn datblygu'r rhwydwaith yn nyfroedd y DU (Datganiad Cyd-weinyddiaethau)[3].

[2] https://www.ospar.org/work-areas/bdc/marine-protected-areas/guidance-for-the-development-and-management-of-the-ospar-network

[3] https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-05/marine-protected-areas-mpas-network-joint-uk-administrations-statement.pdf

2.5 Drwy ddefnyddio’r egwyddorion arweiniol hyn, bydd y rhwydwaith MPAs yn ecolegol gydlynol os bydd yn:

- Diogelu'r ystod o gynefinoedd a rhywogaethau morol mewn modd cymesur, sy'n gynrychioladol o ddyfroedd y DU;
- Gallu gwrthsefyll, addasu ac ymadfer yn sgil effeithiau gan gynnwys effeithiau’r argyfwng hinsawdd (cydnerth);
- Cysylltu ardaloedd â’i gilydd i gynnal cysylltiadau ac amddiffyn rhywogaethau drwy gyfnodau gwahanol yn eu bywyd
- Cael ei reoli'n effeithiol.[4]




**Rhwydwaith MPA sy’n Ecolegol Gydlynol**

**Manteision rhwydwaith MPAs sy’n ecolegol gydlynol ac wedi’i reoli’n dda**

2.6 Yn ogystal â gwarchod a chyfoethogi amrywiaeth fiolegol a chryfhau ecosystemau, gall rhwydwaith MPSa sy’n ecolegol gydlynol ac wedi’i reoli’n dda ddod â manteision ychwanegol i ecosystemau, gweithgarwch economaidd a llesiant drwy’r canlynol:



Cefnogi pysgodfeydd **cynaliadwy** drwy ddiogelu cynefinoedd penodol, a all fod yn bwysig ar gyfer cyfnodau allweddol yn eu cylch bywyd, gan gynnwys ardaloedd silio neu feithrin ac ardaloedd bwydo pwysig.



Cefnogi **cymunedau** arfordirol, drwy greu swyddi, gofalu am les personol, diogelu ffynonellau ynni a darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau twristiaeth a hamdden sy'n seiliedig ar natur.



Creu cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ymchwil, ysbrydoli **cenedlaethau'r dyfodol** a datblygu ymdeimlad cyffredin o berchnogaeth o'n cefnforoedd.

[4] https://llyw.cymru/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchodedig-cymru

## Y Rhwydwaith Presennol o MPAs yng Nghymru

2.7 Ar hyn o bryd, mae 139 o MPAs yn nyfroedd Cymru, 50% o arwynebedd o holl ddyfroedd Cymru. Mae map o’r MPAs presennol yng Nghymru i’w weld yn Ffigur 1. Yng Nghymru, mae'r rhwydwaith yn cynnwys y mathau canlynol o MPAs:


- Mae **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig** (ACA x 15) yn diogelu cynefinoedd a rhywogaethau penodol o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop (1992). Mae ACA yn cael eu dynodi o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.


- Mae **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig** (AGA x 13) yn diogelu adar gwyllt o dan Gyfarwyddeb Adar Ewrop (1979). Mae AGA yn cael eu dynodi o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

- **Mae Parthau Cadwraeth Morol** (PCM x 1) yn diogelu nodweddion daearegol, rhywogaethau neu gynefinoedd morol o ddiddordeb. Maen nhw’n cael eu dynodi o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009). Yn 2014, daeth Rhan 5 o Ddeddf y Môr i rym gan ailenwi Gwarchodfa Natur Morol Sgomer yn Barth Cadwraeth Morol.

- Mae **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** (SoDdGA x 107) yn diogelu bywyd gwyllt a daeareg penodol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae SoDdGA yn gallu cwmpasu glannau'r môr hyd at linell isa’r llanw a gwely'r môr mewn aberoedd.

- Mae **Safleoedd Ramsar** (x3) yn diogelu cynefinoedd gwlyptir sydd o bwys rhyngwladol a rhywogaethau cysylltiedig, adar yn bennaf, o dan gonfensiwn gwlyptiroedd rhyngwladol 1971 ('Confensiwn Ramsar’).






Ffigur 1: Ardaloedd Morol Gwarchodedig dynodedig yn nyfroedd Cymru

## Trefn y Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru

2.8 Yn 2009, cafodd Gweinidogion Cymru bwerau trwy Ddeddf y Môr i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol (PCMau). Yn 2012, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i ddynodi PCMau gwarchodedig iawn er mwyn helpu i ddatblygu rhwydwaith ecolegol gydlynol.

2.9 Cafwyd dros 6,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad a mynegwyd safbwyntiau cryf. Roedd llawer o blaid yr egwyddor o ddynodi PCMau gwarchodedig iawn. Roedd eraill yn teimlo y byddai'n creu effeithiau economaidd-gymdeithasol annerbyniol a bod angen tystiolaeth ychwanegol i gyfiawnhau'r angen am ragor o Barthau Cadwraeth.

2.10 Gwrandawodd Llywodraeth Cymru ar farn rhanddeiliaid, a sefydlu Tîm Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyried sut y dylid datblygu PCMau yng Nghymru. Cefnogwyd y Tîm Gorchwyl a Gorffen gan Grŵp Ffocws Rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli pob un o brif ddefnyddwyr y môr.

2.11 Yn 2013, ar ôl ystyried canfyddiadau'r Tîm Gorchwyl a Gorffen, gollyngodd Llywodraeth Cymru ei chynigion yn ffurfiol ar gyfer PCMau gwarchodedig iawn. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wneud rhagor o waith i asesu'r MPAs presennol yn nyfroedd Cymru er mwyn deall eu cyfraniad at rwydwaith ecolegol gydlynol.

## Asesu cyfraniad MPAs Cymru tuag at rwydwaith y DU

2.12 Yn 2014, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a CNC gynnal asesiad o MPAs Cymru i ddarparu tystiolaeth[5] ar y canlynol:

a) Sut mae MPAs Cymru yn cyfrannu at rwydwaith ecolegol gydlynol o MPAs yn y DU;
b) A oes unrhyw ddiffygion yn y rhwydwaith o MPAs yn nyfroedd Cymru (ar y glannau ac ar y môr) y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn bodloni rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru i'r rhwydwaith
c) Gwerthuso a oes modd mynd i'r afael â'r diffygion a welwyd yn nyfroedd Cymru.

[5] http://jncc.defra.gov.uk/pdf/JNCC_NetworkProgressWelshWaters_Final.pdf

2.13 Er mwyn ystyried yr amrywiaeth fiolegol a daearyddol yn y rhwydwaith, cytunwyd i asesu’r rhwydwaith gan ddefnyddio'r rhanbarthau a bennwyd ar gyfer *Charting Progress* 2 (CP2) (Atodiad B): Asesiad o Gyflwr Moroedd y DU 2010. Mae dyfroedd Cymru yn gorgyffwrdd â dau o'r rhanbarthau hyn; Rhanbarth Môr Iwerddon (a rennir â Lloegr a'r Alban) a Rhanbarth Sianel y Gorllewin a’r Môr Celtaidd (a rennir â Lloegr). Ceir map o'r rhanbarthau sydd yn nyfroedd Cymru yn Ffigur 2.


2.14 Er mwyn asesu cyfraniad MPAs dyfroedd Cymru ar sail pob un o egwyddorion dylunio'r rhwydwaith, cytunwyd ar nifer o feini prawf ymarferol[6] sydd wedi'u nodi yn Nhabl 1. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r egwyddorion isod yn berthnasol i egwyddorion OSPAR ar gael yn Asesiad Rhwydwaith 2016.[5]

[6] Defnyddiodd yr asesiad a gynhaliwyd gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur yn 2016 bedair o bum egwyddor OSPAR: sef Nodweddion; eu bod yn Gynrychioliadol; yn Gydnerth a’u Cysylltedd. Ni wnaeth yr asesiad ystyried 'Rheoli' er mwyn asesu a oes gan MPAs Cymru'r mesurau rheoli angenrheidiol (ar weithgarwch pobl) i gyflawni eu hamcanion cadwraeth. Mae fframwaith rheoli a chynllun gweithredu'r rhwydwaith MPA yn ceisio gwella’r modd y rheolir MPAs yng Nghymru.
https://llyw.cymru/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchodedig-cymru

**Tabl 1: Meini Prawf Asesu Rhwydwaith MPA Cymru**

| Egwyddorion Rhwydwaith MPA Cymru | Meini Prawf | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| **Eu bod yn Gynrychioliadol** | Mae pob nodwedd yn rhestr nodweddion MPAs Cymru wedi'i chynrychioli yn MPAs Cymru.<br><br>Diogelir o leiaf 10% o arwynebedd pob nodwedd cynefin eang (cynefinoedd sy'n nodweddu'r ardal forol) ym mhob rhanbarth. | Mae'n sicrhau bod yr ystod lawn o gynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu cynrychioli o fewn y rhwydwaith.<br><br>Mae'n sicrhau bod cyfran briodol o bob cynefin yn cael ei chynrychioli o fewn y rhwydwaith i sicrhau bod y rhwydwaith yn effeithiol ac ecolegol hyfyw. |
| **Dyblygu** | Diogelir dwy enghraifft o bob nodwedd cynefin eang ym mhob rhanbarth.<br><br>Os yw nodwedd o ddiddordeb cadwraethol, diogelir tair enghraifft o'r nodwedd ym mhob rhanbarth (os yw'r dosbarthiad yn caniatáu hynny). | Mae darparu dyblygyddion yn eu cryfhau i wrthsefyll effaith.<br><br>Mae'n sicrhau bod pob cynefin eang a rhywogaethau a chynefinoedd prin neu dan fygythiad yn cael eu cynrychioli a'u diogelu o fewn y rhwydwaith. |
| **Cysylltedd** | Nid yw MPAs â mathau o gynefinoedd tebyg yn fwy nag 80km oddi wrth ei gilydd.<br><br>Cynrychiolaeth ddigonol o bob cynefin mewn dyfnderoedd amrywiol (lle y bo'n briodol). | Mae sicrhau pellter sylfaenol o fewn y rhwydwaith yn cynyddu'r tebygolrwydd bod safleoedd â nodweddion tebyg wedi'u cysylltu'n ecolegol â'i gilydd[7].<br><br>Mae darparu cynrychiolaeth ddigonol mewn dyfnderoedd gwahanol yn sicrhau bod y rhwydwaith MPAs wedi'i ddosbarthu'n dda, gan ystyried cysylltiadau rhwng ecosystemau morol. |

[7] Nododd Roberts et al (2010) y bwlch o 80km fel canllaw ar gyfer y pellter mwyaf rhwng safleoedd sy'n cynnal cynefinoedd tebyg er mwyn sicrhau cysylltedd ecolegol digonol. Roberts, C.M., Hawkins, J.P., Fletcher, J., Hands, S., Raab, K. a Ward, S. 2010. Ers hynny, fe'i defnyddiwyd gan OSPAR i asesu cysylltedd.




Ffigur 2: Ranbarth *Charting Progress* 2 yn ymwneud â dyfroedd Cymru

2.15 Wrth asesu'r rhwydwaith, gwnaethom ganolbwyntio ar rywogaethau anfudol / cyfyngedig eu symudedd a chynefinoedd:

- Nodweddion cynefin eang (EUNIS Lefel 3), er mwyn sicrhau bod yr ystod lawn o gynefinoedd yn nyfroedd Cymru yn cael eu cynrychioli yn y rhwydwaith MPA,
- Cynefinoedd a rhywogaethau OSPAR dan fygythiad a/neu sy'n prinhau, er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith yn diogelu nodweddion prin a dan fygythiad;
- Rhestr Adran 7 dros dro Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith yn diogelu cynefinoedd a rhywogaethau pwysig iawn Cymru.

2.16 Mae rhestr lawn o'r nodweddion a gafodd eu hasesu[8] i'w gweld yn Atodiad C i'r ddogfen hon.

**Diffygion yn Rhwydwaith Cymru**

2.17 Cafodd y rhwydwaith MPA ei asesu ym mis Tachwedd 2016, ac adolygwyd yr asesiad yn 2019 pan gafwyd data newydd. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod MPAs yng Nghymru yn gwneud cyfraniad sylweddol at gydlyniad ecolegol gan:

fod y rhan fwyaf o gynefinoedd a rhywogaethau yn cael eu cynrychioli ynddynt,

- Lle medrir, bod nodweddion yn cael eu dyblygu i sicrhau cydnerthedd;
- Fod cysylltiad da rhyngddynt.

2.18 Nododd yr asesiad nifer o ddiffygion yng nghyfraniad Cymru at rwydwaith y DU. Nodir y diffygion hyn yn Atodiad C. Nid oes modd unioni'r holl ddiffygion gan nad oes digon o dystiolaeth ar gyfer rhai nodweddion, a/neu nid oes cyfle i unioni'r diffyg ar hyn o bryd. Mae Atodiad C yn darparu gwybodaeth am y diffygion lle gwelwyd nad oedd digon o dystiolaeth a/neu gyfle. Bydd y diffygion hyn yn cael eu hailystyried fel rhan o unrhyw asesiad o'r rhwydwaith yn y dyfodol os a phan y ceir tystiolaeth wyddonol newydd.

[8] Mae rhagor o wybodaeth am y broses sy'n cael ei dilyn i asesu MPAs Cymru ar gael yma: http://jncc.defra.gov.uk/pdf/JNCC_NetworkProgressWelshWaters_Final.pdf


2.19 Am resymau ecolegol, ar sail eu cysylltiad ag ardaloedd morol gwarchodedig eraill ac er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ddigonol ar draws dyfnderoedd gwahanol, mae safleoedd newydd yn tueddu i gael eu lleoli yn bell o ardaloedd y glannau, lle y bo'n briodol.


2.20 Mae Tabl 2 yn rhestru'r diffygion sy'n cael eu hystyried yn addas ar gyfer nodi Parthau Cadwraeth Morol. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y dogfennau Ardaloedd Chwilio.

**Tabl 2: Diffygion yn y rhwydwaith sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd**.

| **Diffyg yn y Rhwydwaith yn nyfroedd Cymru** | **Rheswm am y Diffyg** | **Rhanbarth CP2 lle mae diffyg yn bodoli** | **Disgrifiad cryno o'r nodwedd** | **Delwedd o'r Nodwedd** |
|---|---|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | Llai na 10% o'r ardal wedi'i diogelu ar hyn o bryd mewn MPAs | Môr Iwerddon<br><br>Sianel y Gorllewin a'r Môr Celtaidd | Tywod bras, graean, cerrig mân, graean bras a choblau wedi'u gorchuddio gan ddŵr môr bob amser. Mae'r cynefin hwn yn ansefydlog yn aml oherwydd cerrynt llanw a/neu effaith tonnau. |  |
| Tywod islanw | Llai na 10% o'r ardal wedi'i diogelu ar hyn o bryd mewn MPAs | Sianel y Gorllewin a'r Môr Celtaidd | Gwely môr tywodlyd sydd dan ddŵr bob amser. Mae effaith y tonnau yn gwasgaru’r rhan fwyaf o fwd a chlai gan adael cynefin llac a newidiol sy'n gartref i rywogaethau fel lledod a llymeirch. |  |

| Diffyg yn y Rhwydwaith yn nyfroedd Cymru | Rheswm am y Diffyg | Rhanbarth CP2 lle mae diffyg yn bodoli | Disgrifiad cryno o'r nodwedd | Delwedd o'r Nodwedd |
|---|---|---|---|---|
| Llaid islanw | Llai na 10% o'r ardal wedi'i diogelu ar hyn o bryd mewn MPAs | Sianel y Gorllewin a'r Moroedd Celtaidd | Mathau o fwd tywodlyd gludiog a mwd. O dan ddŵr môr bob amser. Yn ymestyn o'r lefel eithaf isa’r llanw i gynefinoedd alltraeth dyfnfor |  |
| Gwaddod cymysg islanw | Llai na 10% o'r ardal wedi'i diogelu ar hyn o bryd mewn MPAs | Môr Iwerddon | Mae'r cynefin hwn yn cynnwys gwaddodamrywiol gan gynnwys tywod graeanog mwdlyd a brithwaith o goblau a cherrig mân wedi'u gwreiddio yn y gwaddod neu'n gorwedd arno. Mae amrywiaeth o anifeiliaid yn byw yn y cyfuniad hwn o waddod a chreigiau bach, o fewn y gwaddod ac ar y coblau a'r cerrig mân. |  |

| Diffyg yn y Rhwydwaith yn nyfroedd Cymru | Rheswm am y Diffyg | Rhanbarth CP2 lle mae diffyg yn bodoli | Disgrifiad cryno o'r nodwedd | Delwedd o'r Nodwedd |
|---|---|---|---|---|
| Cymunedau bregus o sbyngau ac anthosoaid ar gynefinoedd creigiog islanw | Mae llai na 3 o ddyblygyddion yn cael eu diogelu ar hyn o bryd mewn MPAs. | Môr Iwerddon | Mae'r gymuned hon yn cynnwys mathau o sbwng sy'n tyfu allan o wely'r môr ac anthozoans (cwrelau meddal, môr-wyntyllo, ac anemonïau cytrefol). Mae angen digon o symudiad dŵr arnynt i ddod â chyflenwad parod o fwyd. O ganlyniad, maent i'w gweld ar lannau sy'n agored i donnau neu gerrynt, ond hefyd gyda chysgod lleol rhag grym llawn y tonnau a'r llanw. |  |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | Mae llai na 3 o ddyblygyddion yn cael eu diogelu ar hyn o bryd mewn MPAs. | Sianel y Gorllewin a'r Môr Celtaidd | Mathau o fwd tywodlyd gludiog a mwd sydd i'w weld mewn mwy nag 20m o ddyfnder. |  |

| Diffyg yn y Rhwydwaith yn nyfroedd Cymru | Rheswm am y Diffyg | Rhanbarth CP2 lle mae diffyg yn bodoli | Disgrifiad cryno o'r nodwedd | Delwedd o'r Nodwedd |
|---|---|---|---|---|
| Cymunedau cwils môr a megaffawna tyrchol | Mae llai na 3o ddyblygyddion yn cael eu diogelu ar hyn o bryd mewn MPAs. | Sianel y Gorllewin a'r Môr Celtaidd | Ar wastadeddau sefydlog o fwd mân, gall rhannau o wely'r môr fod yn frith o dwmpathau gan anifeiliaid fel y llyngyr llosgfynydd, tyllau (e.e. gan gimychiaid Norwy a chramenogion eraill) a chwils môr sy'n ymestyn i fyny i'r dŵr i gasglu bwyd. |   |
| Riff o Lyngyr Dreiniog Riff *Sabellaria spinulosa* | Mae llai na 3 o ddyblygyddion yn cael eu diogelu ar hyn o bryd mewn MPAs presennol. | Môr Iwerddon | Mae'r llyngyren ddreiniog *Sabellaria spinulosa* yn asio gronynnau tywod i greu tiwb. Maen nhw i'w gweld ar eu pen eu hunain ond byddant hefyd yn crynhoi i greu riffiau mawr. Ar ffurf rîff, mae tiwbiau'r llyngyr yn codi'n fertigol o wely'r môr tywodlyd neu raeanog gan ddarparu cynefin a bwyd ar gyfer mathau eraill o fywyd môr fel crancod a physgod ifanc. |  |

| Diffyg yn y Rhwydwaith yn nyfroedd Cymru | Rheswm am y Diffyg | Rhanbarth CP2 lle mae diffyg yn bodoli | Disgrifiad cryno o'r nodwedd | Delwedd o'r Nodwedd |
|---|---|---|---|---|
| Cocosen fawr<br><br>*Arctica islandica* | Mae llai na 3 o ddyblygyddion yn cael eu diogelu ar hyn o bryd mewn MPAs. | Sianel y Gorllewin a'r Moroedd Celtaidd | Mae cocos mawr i'w gweld ychydig yn is na lefel y distyll hyd at ddyfnder o tua 500m. Maent yn claddu'u hunain yn y gwaddodion, bron yn llwyr yn aml gyda dim ond tiwb bach yn ymestyn i wely'r môr. Gallant fyw am dros 500 mlynedd. |  |
| Môr-wyntyll binc<br><br>*Eunicella verrucosa* | Mae llai na 3o ddyblygyddion yn cael eu diogelu ar hyn o bryd mewn MPAs. | Môr Iwerddon | Mae'r fôr-wyntyll binc yn tyfu'n araf ac yn byw mewn ardaloedd lle ceir cerrynt cryf ar riffiau creigiog. Mae'r canghennau wedi'u gorchuddio â lympiau bach ac o'r lympiau hyn, daw ffurfiau tebyg i anemonïau bach i gasglu bwyd. Gallant dyfu hyd at 50cm o uchder a byw am 100 mlynedd. |  |

## RHAN 3 CWBLHAU CYFRANIAD CYMRU AT RWYDWAITH ECOLEGOL GYDLYNOL Y DU O MPAs

### Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

3.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio ac yn cynnal cynllun cyfathrebu manwl i gefnogi'r broses o nodi Parthau Cadwraeth Morol.

3.2 Mae'r amgylchedd morol yn adnodd sy'n cael ei rannu a'i ddefnyddio gan lawer. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel gwarcheidwad moroedd Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr y môr i sicrhau bod pob un ohonom yn cael mwynhau amgylchedd iach, cydnerth a chynhyrchiol ac elwa ohono.

3.3 Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn llywio a sicrhau cyfraniad Cymru tuag at rwydwaith y DU. Mae llawer o randdeiliaid yn mynd allan ar y môr neu'n agos at yr arfordir bob dydd ac mae ganddynt lawer o wybodaeth ac arbenigedd lleol gwerthfawr.

3.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau'r canlynol:

- Ein bod yn deall pam mae angen MPAs ychwanegol yn rhwydwaith Cymru.
- Bod y broses o nodi PCMau yn glir ac yn dryloyw.
- Bod cyfle i gyfrannu gydol y broses o nodi PCMau.
- Bod diben yr amcanion cadwraeth yn glir a bod pawb yn deall y mesurau rheoli dangosol ar gyfer y PCMau arfaethedig.
- Bod diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi ar wefan Llywodraeth Cymru, y cyfryngau cymdeithasol a thrwy Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol.

### Grŵp Gorchwyl a Gorffen


3.5 Er mwyn cefnogi'r broses hon, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur er mwyn nodi Parthau Cadwraeth Morol sy'n mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn nyfroedd Cymru (Tabl 2).

3.6 Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys aelodau o Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol sy'n cynrychioli buddiannau eu sector. Mae gan y Grŵp gadeirydd annibynnol, a Llywodraeth Cymru yw'r ysgrifenyddiaeth. Bydd CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn cefnogi gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen lle bo angen, gan gynnwys darparu cyngor technegol a gwyddonol yn unol â'u rolau statudol.


3.7 Mae'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gael yn Atodiad D.

### Y Broses ar gyfer Nodi Parthau Cadwraeth Morol

3.8 Bydd y broses ar gyfer nodi Parthau Cadwraeth Morol yn nyfroedd Cymru yn dilyn saith cam, fel y'u cyflwynir yn y diagram isod ac yn Nhabl 3.



3.9 Mae'r broses ar gyfer nodi PCMau yn nyfroedd Cymru yn dechrau drwy edrych ar ardaloedd eang, ac wedyn ar ardaloedd llai a mwy penodol wrth i'r broses ddatblygu. Gweler y diagram isod.




**Tabl 3. Y Broses ar gyfer Nodi a Dynodi Parthau Cadwraeth Morol**

| Cam | Manylion | Pwyntiau Gweithredu |
|---|---|---|
| **Cam 1 Ardaloedd Chwilio Eang** | Arweinydd: Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur<br><br>Y cam cyntaf oedd nodi ardaloedd yn nyfroedd Cymru lle mae'r diffygion yn amlwg. Gweithiodd CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur gyda'i gilydd i nodi ardaloedd chwilio eang ar gyfer pob diffyg fesul môr rhanbarthol.<br><br>Cafodd yr egwyddorion canlynol eu defnyddio yng Ngham 1:<br><br>• Nodwyd ardaloedd chwilio eang trwy ddefnyddio'r dystiolaeth ecolegol orau sydd ar gael.<br>• Roedd ardaloedd o ddiddordeb cymdeithasol-economaidd is yn cael eu ffafrio er mwyn lleihau effeithiau cymdeithasol ac economaidd, cyn belled nad yw'r gwerth ecolegol yn cael ei beryglu.<br>• Nid oedd ardaloedd lle ceir diffygion sy'n gorgyffwrdd â safleoedd sy'n gwarchod yr un nodweddion yn cael eu hystyried.<br>• Bydd y ddogfen ardaloedd chwilio eang yn cyflwyno'r holl ddiffygion yn y môr rhanbarthol, gan ddangos cyfleoedd posibl i gynnwys mwy nag un diffyg yn yr un lleoliad.<br>• Bydd cais am ddata yn cael ei gyflwyno i randdeiliaid er mwyn casglu data ychwanegol i gefnogi'r broses. Caiff data eu hasesu yn ôl meini prawf cyflwyno a phrotocolau cyn eu cynnwys mewn pecynnau tystiolaeth.<br><br>**Canlyniad**:<br>Mae CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi datblygu dogfen ardal chwilio eang. Mae hwn yn darparu'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob diffyg yn y môr rhanbarthol gofynnol:<br>• Disgrifiad o'r diffyg,<br>• Mapiau i ddangos ble mae'r nodwedd i unioni'r diffyg, | • Cyflwyno data gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen<br>• CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi datblygu dogfennau ardal chwilio eang ar gyfer pob môr rhanbarthol<br>• CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi cynhyrchu deunyddiau gweithdy |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ffigurau dadansoddi wedi'u diweddaru o faint o gynefin sydd ei angen i unioni'r diffyg,<br>• Ffynhonnell y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i nodi'r ardaloedd chwilio eang (gweler ATODIAD E),<br>• Gwybodaeth am sensitifrwydd y nodwedd i bwysau a<br>• Gwybodaeth am y gweithgareddau sy'n debygol o gael eu rheoli. | |
| **Cam 2 Ardaloedd Chwilio** | Arweinydd: Grŵp Gorchwyl a Gorffen<br><br>Gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, CNC a Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (yn ôl yr angen), gweithiodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda'i gilydd i:<br><br>• Ystyried a thrafod opsiynau Ardaloedd Chwilio Eang ar gyfer pob diffyg a gyflwynwyd gan CNC a Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur<br>• Ystyried gweithgareddau economaidd-gymdeithasol y gellir eu cyflawni o fewn neu gerllaw Ardaloedd Chwilio,<br>• Ardaloedd Chwilio a Nodwyd i'w hystyried a'u mireinio'n opsiynau Parthau Cadwraeth Morol posibl<br><br>**Canlyniad**:<br>Nododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Chwilio ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach nawr yn digwydd, gan gyflwyno'r ardaloedd Ardaloedd Chwilio a galwad data am dystiolaeth ecolegol ac economaidd-gymdeithasol bellach i gefnogi mireinio'r Ardaloedd Chwilio.<br><br>Bydd gwybodaeth a dderbynnir o'r broses ehangach o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei hadolygu gan y Tîm Prosiect a'i chyflwyno i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. | • Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn diffinio Meysydd Chwilio<br>• Llywodraeth Cymru'n arwain y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid<br>• Gofyn am ddata gan randdeiliaid |

| | | |
|---|---|---|
| **Cam 3 Pennu Ffiniau** | **Arweinydd:** Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur<br><br>Bydd CNC a Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn mireinio’r Ardaloedd Chwilio a nodwyd o dan Gam 2 drwy ddatblygu opsiynau ar gyfer ffiniau Parthau Cadwraeth Morol posibl i’w trafod gyda’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.<br><br>Bydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu defnyddio yng Ngham 3:<br><br>• Rhaid cynnwys ardal hyfyw o bob nodwedd o fewn y ffiniau (mae Atodiad F yn cynnwys gwybodaeth am y meintiau hyfyw) a rhaid iddynt unioni’r diffyg yn y rhwydwaith yn ddigonol,<br>• Efallai y bydd angen clustog o amgylch nodweddion gwarchodedig i gyfateb i hyd rhaffau rhwydi, fel y nodir yn Atodiad G.<br>• Dylai ffiniau ystyried cysylltedd cynefinoedd ar draws dyfroedd Cymru, gan gynnwys dosbarthiad dyfnderoedd gwahanol,<br>• Os oes cyfiawnhad ecolegol clir, gellid cynnwys ardal fwy o gynefin neu gynefin ategol o fewn y ffin. Caiff y mater hwn ei ystyried fesul achos,<br>• Os oes manteision ymarferol at ddibenion rheoli, dylid ystyried a oes angen cynnwys nodweddion eraill sy'n gorgyffwrdd â nodwedd sy’n destun y ddiffyg. I'w ystyried fesul achos.<br>• Bydd y ffiniau mor syml â phosibl, gan ddefnyddio’r nifer lleiaf posibl o linellau syth, a byddant yn cynnwys ardal glustogi briodol (Atodiad G) er mwyn sicrhau bod y nodwedd yn cael ei diogelu. Dangosir enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer llunio ffiniau yn Ffigur 3 isod<br>• Lle medrir, bydd safleoedd posibl yn unioni mwy nag un diffyg. | • Opsiynau ffiniau Parthau Cadwraeth Morol posibl wedi'u nodi gan CNC a Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur<br>• Ffiniau MCZ a ffefrir y cytunwyd arnynt gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen |

| | | |
|---|---|---|
| | <br><br>Ffigur 3 - Mae darlun 'A' sy'n dangos y ffin a ffefrir o gwmpas ardal fawr o gynefin eang. Mae darlun 'B' yn dangos y ffin a ffefrir o amgylch cynefin.<br><br>**Canlyniad**<br>Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cytuno ar ffiniau ac yn argymell PCMau posibl i Lywodraeth Cymru i'w hystyried ymhellach | |
| **Cam 4 Cyngor Cadwraeth Natur Statudol (cyn** | **Arweinydd**: Llywodraeth Cymru, CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am gyngor gan CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (fel cynghorwyr cadwraeth natur statudol Llywodraeth Cymru) | • CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn rhoi cyngor cyn ymgynghori i Lywodraeth Cymru |

<table>
<tr><td>ymgynghori)</td><td>ar y PCMau posibl a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, gan gynnwys cyngor ar:<ul><li>Lefel yr hyder yn y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i nodi PCMau posibl, gan nodi a oes angen tystiolaeth ychwanegol o bosibl i ennyn hyder ym mhresenoldeb a maint nodweddion,</li><li>Lefel yr hyder yn y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i roi cyngor ar gyflwr nodweddion,</li><li>Perygl nawr ac yn y dyfodol i'r nodwedd o weithgareddau pobl,</li><li>Gwerth ecolegol y PCMau posibl ac a fyddant yn unioni'r diffygion a nodwyd yn yr asesiad o rwydwaith Cymru</li><li>Yr amcanion cadwraeth lefel uchel a'r cyngor rhagarweiniol ar bwysau a gweithgareddau i lywio mesurau rheoli posibl.</li></ul>Canlyniad<br>Bydd CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn rhoi cyngor gwyddonol ar y PCMau posibl a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Bydd y cyngor hwn yn cael ei roi mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru a bydd yn mynd i'r afael â'r pwyntiau uchod. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r cyngor hwn yn cael ei ddatblygu ar gael yn y ddogfen Protocolau Tystiolaeth PCMau.</td><td></td></tr>
<tr><td>Cam 5 Ymgynghori ffurfiol</td><td>Arweinydd: Llywodraeth Cymru<br><br>Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a chyngor CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wrth benderfynu a ddylai fwrw ymlaen i ymgynghori ar y PCMau posibl (neu gymryd camau gwahanol, gan gynnwys casglu rhagor o dystiolaeth).<br><br>Os penderfynir ymgynghori, bydd yr ymgynghoriad ar PCM posibl yn para o leiaf 12 wythnos.</td><td><ul><li>Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymgynghoriad ffurfiol (12 wythnos)</li><li>Llywodraeth Cymru yn arwain sioeau teithiol ledled Cymru</li><li>Cais am ddata</li><li>CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn helpu Llywodraeth Cymru i</li></ul></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd y pecyn ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth am y PCMau posibl a'r nodweddion sydd i'w diogelu, cyngor cychwynnol ar opsiynau rheoli posibl ynghyd ag asesiad o effaith anfanteision a manteision disgwyliedig. Bydd yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle i bartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau ysgrifenedig a rhoi tystiolaeth ychwanegol i Lywodraeth Cymru ar y PCMau posibl.<br><br>Yn ystod y cyfnod ymgynghori, defnyddir rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth am yr ymgynghoriad ac annog cyfranogiad ehangach gan randdeiliaid eraill a'r cyhoedd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd yr holl ymatebion yn cael eu dadansoddi a bydd crynodeb o'r ymatebion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. | adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad<br>• Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad |
| **Cam 6 Cyngor Cadwraeth Natur Statudol (ar ôl yr ymgynghori)** | **Arweinydd:** Llywodraeth Cymru, CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ymatebion sydd wedi dod i law yn ystod yr ymgynghoriad. Gan ddibynnu ar y wybodaeth sydd wedi dod i law, yn ystod y cam hwn mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru ofyn i CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur am ragor o gyngor. | • Llywodraeth Cymru i benderfynu ar ba PCMau i'w hargymell<br>• Cymorth gan CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |

| | | |
|---|---|---|
| **Cam 7 Y Broses Ddynodi** | **Arweinydd:** Llywodraeth Cymru<br><br>Gweinidogion Cymru sy'n bennaf cyfrifol am ddynodi PCMau yn nyfroedd Cymru. Wrth benderfynu a ddylid dynodi PCM a argymhellir, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y wybodaeth ganlynol:<br><br>• Ymatebion i'r ymarferiad ymgynghori,<br>• Yr asesiad o effaith<br>• Cyngor CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.<br><br>Mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru am ohebu, trafod, gofyn am ragor o wybodaeth neu gynnal gwrandawiad cyhoeddus cyn penderfynu dynodi. | • Gweinidogion Cymru wedi dynodi PCM |

# RHAN 4 TYSTIOLAETH

## Tystiolaeth Ecolegol ac Economaidd-gymdeithasol

4.1 Mae'r asesiad o'r rhwydwaith yn rhoi tystiolaeth sy'n dangos pa nodweddion sydd eisoes wedi'u diogelu'n ddigonol gan Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru, a'r rhai y mae angen eu hymgorffori yn y rhwydwaith er mwyn unioni'r diffygion o ran cydlyniad ecolegol.

4.2 Bydd y dystiolaeth ecolegol ac economaidd-gymdeithasol orau sydd ar gael yn cael ei defnyddio i nodi Parthau Cadwraeth Morol (PCM) posibl. Yn y lle cyntaf, bydd PCMau posibl yn cael eu nodi ar sail tystiolaeth ecolegol. Bydd gwybodaeth economaidd-gymdeithasol yn cael ei defnyddio gydol y broses i fireinio'r ardaloedd i osgoi effeithiau ar weithgareddau dynol i'r graddau mwyaf posibl.

## Galw am Ddata

4.3 Yn ystod y prosiect, gofynnir i randdeiliaid am ddata ecolegol a/neu economaidd-gymdeithasol perthnasol a chyhoeddedig sydd ganddynt. Bydd CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn ystyried gwybodaeth sy'n dod i law drwy'r cais cychwynnol wrth nodi ardaloedd chwilio eang yng Ngham 1 proses y PCM.

4.4 Gofynnir am ragor o ddata wrth ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid ar ôl penderfynu ar yr Ardaloedd Chwilio (Cam 2 o broses y PCM) ac yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd hyn yn gyfle i bartïon â diddordeb i gyflwyno data ecolegol ac economaidd-gymdeithasol sydd, yn eu barn nhw, yn berthnasol i unrhyw un o nodweddion y diffyg. Bydd CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol wrth ddatblygu eu cyngor statudol i Lywodraeth Cymru ar y PCMau posibl. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gwybodaeth berthnasol a gyflwynir yn yr asesiadau effaith ar PCMau posibl.

4.5 Er mwyn i'r data fod yn berthnasol, rhaid iddynt gydymffurfio â'r canllawiau yn Atodiad H a'u cyflwyno gyda rhestr wirio wedi'i chwblhau (wedi'i darparu gyda'r alwad am ddata)

## Hyder yn y Data

4.6 Wrth benderfynu pa PCMau posibl sy'n addas ar gyfer ymgynghoriad, a dynodiad yn y pen draw, bydd angen i Lywodraeth Cymru deimlo'n hyderus ynghylch presenoldeb a maint y nodweddion yn y PCM. Bydd

lefel yr hyder yn cael ei hystyried fesul achos a bydd yn CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn rhoi cyngor ffurfiol arno. Wrth ddarparu'r cyngor hwn, bydd CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn dilyn y dull a nodwyd yn y ddogfen Protocolau Tystiolaeth PCMau.

4.7 Gan ddibynnu ar gyngor CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, mae'n bosibl y bydd angen tystiolaeth wyddonol ychwanegol i gryfhau dealltwriaeth a hyder Llywodraeth Cymru ynghylch presenoldeb a maint nodweddion y PCM.

**Asesiadau Effaith**

4.8 Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal Asesiad Effaith i benderfynu beth fydd anfanteision a manteision cymdeithasol ac economaidd dynodi'r PCM posibl. Bydd gofyn ystyried materion amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol heddiw, yfory ac yn yr arfaeth.

4.9 Bydd yr Asesiadau Effaith yn rhan o'r pecyn ymgynghori ffurfiol gan roi cyfle i bartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau am y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ym mhob asesiad a nodi unrhyw wybodaeth berthnasol ychwanegol.

# RHAN 5 RHEOLI PARTHAU CADWRAETH MOROL

## Amcanion Cadwraeth

5.1 Mae Deddf y Môr yn ei gwneud yn ofynnol pennu amcanion cadwraeth y Parthau Cadwraeth Morol. Mae amcan cadwraeth yn ddatganiad sy'n disgrifio’r cyflwr (ansawdd) ecolegol neu ddaearegol a ddymunir ar gyfer y nodwedd warchodedig ac mae'n fan cychwyn ar gyfer penderfynu a oes angen mesurau rheoli a monitro.

5.2 Fel cynghorwyr cadwraeth natur statudol, bydd CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn rhoi cyngor ar yr amcanion cadwraeth angenrheidiol a'r opsiynau rheoli posibl ar gyfer PCMau, yn cynnwys :

- Amcanion cadwraeth y PCM
- Cyngor ar gyflwr y nodwedd
- Cyngor pa weithgareddau a allai effeithio ar nodweddion.

5.3 Cyhoeddir rhagor o wybodaeth maes o law am ddatblygu Amcanion Cadwraeth a'r broses reoli.

## Rheoli

5.4 Ar ôl dynodi PCM a chyhoeddi amcanion cadwraeth, bydd pob un yn cael ei reoli fel rhan o'r rhwydwaith ehangach o MPAs yng Nghymru, yn unol â'r Fframwaith Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig[9].

5.5 Fel y grŵp sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli'r rhwydwaith MPA yng Nghymru, bydd Grŵp Llywio Rheoli'r MPA yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gydol y broses hon.

[9] https://llyw.cymru/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchodedig-cymru

# RHAN 6 GWAITH YN Y DYFODOL

## Rhywogaethau morol symudol iawn

6.1 Mae rhywogaethau morol symudol iawn, megis llamidyddion, dolffiniaid, morloi ac adar môr yn chwarae rhan bwysig iawn yn ein hamgylchedd morol. Maen nhw’n aml yn cael eu defnyddio fel dangosyddion allweddol o iechyd ecosystemau morol.

6.2 Mae llawer o rywogaethau symudol eisoes yn cael eu gwarchod gan y rhwydwaith MPA yng Nghymru, ac mae MPAs wedi'u dynodi ar gyfer llamidyddion, dolffiniaid trwynbwl, morloi llwyd ac amrywiaeth o adar môr. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr angen am PCMau i ddiogelu unrhyw rywogaethau ychwanegol yng ngwaith y dyfodol.

## Parth Cadwraeth Morol Sgomer

6.3 Ym 1990, dynodwyd y dyfroedd o amgylch Ynys Sgomer a Phenrhyn Marloes yn Warchodfa Natur Forol (MNR) o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981). Ym mis Rhagfyr 2014, daeth Rhan 5 o Ddeddf y Môr i rym gan newid y diffiniad o Warchodfa Natur Forol. O ganlyniad, ail-gategoreiddiwyd Gwarchodfa Natur Forol Sgomer yn PCM.

6.4 Mae'r is-ddeddfau a gyflwynwyd i ddiogelu a rheoli'r Warchodfa Natur Forol yn parhau ar waith er yr ailgategoreiddio.

6.5 Fel rhan o'r gwaith yn y dyfodol ar PCM Sgomer, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gorchymyn dynodi, sy'n darparu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig y PCM a'r amcanion cadwraeth cysylltiedig, yn unol â gofynion Deddf y Môr. CNC a rhanddeiliaid fydd yn llywio’r cam hwn.


## Atodiad A. Y Rhwymedigaethau i Fioamrywiaeth Forol a'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig

| | |
|---|---|
| **Rhyngwladol** | |
| | Mae'r **Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol** yn ei gwneud yn ofynnol i bartïon i'r confensiwn sefydlu, cynnal a rheoli'n effeithiol ardaloedd gwarchodedig morol cynrychioliadol sy'n cyfrannu at rwydwaith byd-eang o ardaloedd gwarchodedig. |
|  | Nod **Confensiwn Oslo a Pharis** (OSPAR) yw diogelu amgylchedd morol Gogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd. Un ffordd o gyflawni hyn yw trwy sefydlu rhwydwaith ecolegol gydlynol o ardaloedd morol gwarchodedig. |
| | Nod **Confensiwn Bern** yw gwarchod a diogelu rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid gwyllt a'u cynefinoedd naturiol. Mae'n ceisio sefydlu'r Rhwydwaith Emerald, rhwydwaith ecolegol sy'n cynnwys Ardaloedd o Ddiddordeb Cadwraethol Arbennig. |
| | Nod **Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol 1971** yw gwarchod gwlyptiroedd a hyrwyddo defnydd cynaliadwy ohonynt. |
| **Y DU** | |
| | **Datganiad Polisi Morol y DU** – yn fframwaith cynllunio morol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynlluniau morol a phenderfynwyr ystyried sut y gallai datblygiadau effeithio ar nod y DU o atal y broses o golli bioamrywiaeth, a'r rhwymedigaethau cyfreithiol i Ardaloedd Morol Gwarchodedig, eu hamcanion cadwraeth, a'u rheolaeth. |
| | Mae **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009** yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu rhwydwaith o safleoedd, sy'n cyfrannu at y gwaith o warchod a gwella'r amgylchedd morol yn y DU. |
|  | Mae **Strategaeth Forol y DU** yn gofyn i Weinidogion Cymru a Gweinyddiaethau eraill y DU roi mesurau ar waith i sicrhau neu gadw Statws Amgylcheddol Da (GES) yn ein moroedd erbyn 2020. Bydd rhwydwaith o MPAs yn gyfraniad pwysig at sicrhau'r Statws hwnnw. |
| | Mae **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017** a **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017** yn rhoi'r pwerau i sefydlu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. |
| | Mae **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn G**wlad**1981** yn diogelu anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd yn y DU ac yn rhoi'r pwerau i ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. |
| **Cenedlaethol** | |
|  | Nod **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer y Gymru a garem, ac mae'r nodau'n cynnwys Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang a Chymru gydnerth. |
| | Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn nodi ffordd Gymreig o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol ar lefel genedlaethol a lefel leol yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a chryfhau ecosystemau. |

## Atodiad B. Maint yr Asesiad o Rwydwaith y DU

Y nod yw sefydlu rhwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd y DU, sy'n rhan o rwydwaith ehangach o MPAs yng Ngogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd.  Wrth ystyried cydlyniad ecolegol, mae OSPAR yn argymell ystyried nodweddion biolegol a daearyddol ardal yn hytrach na chanolbwyntio ar nodweddion o fewn ffiniau gweinyddol.

Penderfynwyd defnyddio ffiniau'r moroedd rhanbarthol a ddefnyddiwyd i lywio *Charting Progress* 2, Adroddiad Cyflwr y Moroedd yn 2010 er mwyn pennu hyd a lled yr asesiad o'r rhwydwaith MPA. Rhannodd *Charting Progress* 2 foroedd y DU yn wyth rhanbarth ar sail eu nodweddion biolegol a daearyddol, fel y gwelir yn Ffigur 4 isod.




Ffigur 4: Rhanbarthau *Charting Progess 2*

## Atodiad C. Asesiad o'r Rhwydwaith – nodweddion a chanlyniadau

| **Cynefinoedd eang** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynefinoedd eang** | **Disgrifiad Cyffredin** | **A Oes Diffyg yn Rhwydwaith Cymru? Oes/Nac oes** | **Rhanbarth lle ceir diffyg** |
| Craig forlannol egni uchel | Glannau creigiog yn agored iawn i ynni tonnau a/neu gerrynt y llanw | Nac oes | |
| Craig forlannol egni cymedrol | Glannau creigiog sy'n agored i rywfaint o ynni tonnau a/neu gerrynt y llanw | Nac oes | |
| Craig forlannol egni isel | Glannau creigiog wedi'u gwarchod rhag tonnau a cherrynt y llanw | Nac oes | |
| Gwaddod bras morlannol | Glan-môr sy'n cynnwys cerrig mân, graean a thywod bras | Nac oes | |
| Tywod a thywod mwdlyd morlannol | Glan-môr tywodlyd | Nac oes | |
| Llaid morlannol | Glan-môr lleidiog | Nac oes | |
| Gwaddod cymysg morlannol | Glan-môr sy'n cynnwys cymysgedd o gerrig, graean, tywod a llaid | Nac oes | |
| Morfeydd heli arfordirol a gwelyau cyrs halwynog | Ardaloedd lleidiog cysgodol ym mhen ucha'r glan-môr lle ceir planhigion blodeuog sy'n gallu gwrthsefyll halen yn tyfu | Nac oes | |
| Gwaddodion morlannol sy'n cynnwys llawer o angiosbermau dyfrol | Glannau lleidiog cysgodol lle ceir glaswelltau môr a phlanhigion blodeuog eraill sy'n gallu gwrthsefyll halen yn tyfu | Nac oes | |
| Riffiau biogenig morlannol | Riffiau ar lan y môr wedi'u gwneud o rannau caled pethau byw | Nac oes | |
| Craig isforlan fas egni uchel | Glannau môr creigiog, sy'n agored i donnau a/neu gerrynt cryf iawn | Nac oes | |
| Craig isforlan fas egni canolig | Glannau môr creigiog sydd â rhywfaint o gysgod rhag tonnau a/neu gerrynt | Nac oes | |
| Craig isforlan fas egni isel | Glannau môr creigiog sydd wedi'u cysgodi rhag tonnau a cherrynt | Nac oes | |
| Craig isforlan ddofn egni uchel | Craig mewn dŵr dyfnach sy'n agored i donnau a/neu gerrynt cryf iawn | Nac oes | |
| Craig isforlan ddofn egni canolig | Craig mewn dŵr dyfnach sydd â rhywfaint o gysgod rhag tonnau a/neu gerrynt | Nac oes | |
| Craig isforlan ddofn egni isel | Craig mewn dŵr dyfnach wedi'i chysgodi rhag tonnau a cherrynt | Nac oes | |
| Gwaddod bras islanw | Gwelyau tywod bras, graean a graean bras o dan y môr | Oes | Môr Iwerddon a Sianel y Gorllewin a'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Moroedd Celtaidd |
| Tywod islanw | Gwelyau tywod o dan y môr | Oes | Sianel y Gorllewin a'r Moroedd Celtaidd |
| Llaid islanw | Gwelyau llaid o dan y môr | Oes | Sianel y Gorllewin a'r Moroedd Celtaidd |
| Gwaddod cymysg islanw | Gwelyau o dan y môr sy'n gymysgedd o gerrig, graean, tywod a llaid | Oes | Môr Iwerddon a Sianel y Gorllewin a'r Moroedd Celtaidd |
| Cymunedau o ficroffytau islanw ar waddod | Gwelyau tanddwr o gerrig mân, graean, tywod neu llaid lle mae morwellt neu wymon yn tyfu | Nac oes | |
| Riffiau biogenig islanw | Riffiau tanddwr wedi'u gwneud o rannau caled o bethau byw | Nac oes | |
| **Cynefinoedd o Bwys Cadwraethol** | | | |
| Gwelyau cregyn gleision | | Nac oes | |
| Riffiau carbonad | | Nac oes | |
| Cynefin creigiog morydol | | Oes - Ni ellir unioni'r diffyg yn nyfroedd Cymru. Tystiolaeth gyfyngedig o'r cynefin y tu allan i safleoedd presennol. | Môr Iwerddon |

| | | |
|---|---|---|
| Cymunedau sbwng ac anthozoan bregus mewn cynefinoedd creigiog islanw | Oes | Môr Iwerddon |
| Fflatiau llaid rhynglanwol | Nac oes | |
| Cymunedau clogfeini/dan glogfeini rhynglanwol | Nac oes | |
| Gwelyau maerl | Nac oes | |
| Gwelyau *Modiolus modiolus* (gwelyau marchfisglod) | Nac oes | |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | Oes | Sianel y Gorllewin a'r Moroedd Celtaidd |
| Gwelyau *musculus discors* (Misglen werdd) | Oes- Ni ellir bodloni'r diffyg oherwydd tystiolaeth gyfyngedig yn ymwneud â'r nodwedd yn nyfroedd Cymru | Môr Iwerddon |
| Gwelyau *Ostrea edulis* (Gwelyau wystrys) | Nac oes | |
| Amlygiadau o fawn a chlai | Nac oes | |
| Riffiau *Sabellaria alveolata* (llyngyr diliau (rhywogaeth rynglanwol yn bennaf)) | Nac oes | |
| Riffiau *Sabellaria spinulosa* (llyngyr dreiniog (rhywogaeth islanwol)) | Oes[10] | Môr Iwerddon |
| Gwelyau morwellt | Nac oes | |
| Cymunedau cwils môr a megaffawna tyrchol | Oes | Sianel y Gorllewin a'r Moroedd Celtaidd |

[10] Adeg yr asesiad o'r rhwydwaith, prin oedd y dystiolaeth o bresenoldeb riffiau *Sabellaria spinulosa*. Ers yr asesiad, mae rhagor o dystiolaeth wedi dod i'r amlwg a gwelir bod diffyg erbyn hyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Graean lleidiog cysgodol | | Oes<br>Ni ellir unioni'r diffyg yn nyfroedd Cymru. Tystiolaeth gyfyngedig o'r cynefin y tu allan i safleoedd presennol. | Sianel y Gorllewin a'r Moroedd Celtaidd |
| Gwaddod lleidiog cymysg islanw | | Nac oes | |
| Sianeli a ysgubir gan y llanw | | Nac oes | |
| **Rhywogaethau anfudol / cyfyngedig eu symudedd o Bwys Cadwraethol** | | | |
| **Enw Gwyddonol** | **Enw Cymraeg** | Nac oes | |
| *Alkmaria romijni* | Llyngyren dentaclog y morlyn | Nac oes | |
| *Anotrichium barbatum* | Gwymon coch barfog | Nac oes | |
| *Arctica islandica* | Cocosen fawr | ✓ | Sianel y Gorllewin a'r Moroedd Celtaidd |
| *Cruoria cruoriaeformis* | Gwymon coch | Nac oes | |
| *Dermocorynum montagnei / Grateloupia montagnei* | Gwymon coch | Nac oes | |
| *Edwardsia timida* | Anemoni turiol | Nac oes | |
| *Eunicella verrucosa* | Môr-wyntyll binc | Oes | Môr Iwerddon |
| *Haliclystus auricula* | Slefren goesynnog | Oes - Ni ellir unioni'r diffyg oherwydd diffyg tystiolaeth am | Môr Iwerddon |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | y nodwedd yn nyfroedd Cymru | |
| *Lithothamnion corallioides* | Maerl cwrel | Nac oes | |
| *Lucernariopsis campanulata* | Slefren goesynnog | Nac oes | |
| *Ostrea edulis* | Wystrys brodorol | Oes<br>Ni ellir unioni'r diffyg oherwydd diffyg tystiolaeth am y nodwedd yn nyfroedd Cymru | Môr Iwerddon a Sianel y Gorllewin a'r Moroedd Celtaidd |
| *Padina pavonica* | Cynffon Paun | Nac oes | |
| *Palinurus elephas* | Cimwch coch (neu siacar goch) | Oes<br>Nid yw'r diffyg wedi'i ystyried heb gynllun adfer | Môr Iwerddon |
| *Phymatolithon calcareum* | Maerl cyffredin | Nac oes | |
| *Tenellia adspersa* | Môr-wlithen y morlyn | Nac oes | |

# Atodiad D. Cylch Gorchwyl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

## Cylch Gorchwyl Grŵp Gorchwyl a Gorffen Prosiect Cwblhau'r Rhwydwaith MPAs

### Diben y grŵp

Bydd rhanddeiliaid morol yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur er mwyn nodi Parthau Cadwraeth Morol (MCZs) yn nyfroedd Cymru, gan gwblhau cyfraniad Cymru at rwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd y DU.

### Aelodaeth

Bydd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gadeirydd annibynnol, a bydd y cyfarfodydd yn cael eu trefnu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y rhan fwyaf o aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gynrychiolwyr Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) [nawr Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMAC)] a sectorau sy'n gweithredu naill ai yn ardal alltraeth Cymru, neu'n agos iddi, os nad ydynt eisoes wedi'u cynrychioli ar WMAAG [PMAC]. Bydd aelodau'n cynrychioli barn eu sectorau ac yn sicrhau bod gwybodaeth y grŵp yn cael ei rhannu â'u rhwydweithiau mewn da bryd.

Bydd yr Aelodau'n gwneud y canlynol:

- Gwneud pob ymdrech i ddod i gyfarfodydd neu anfon dirprwy pan nad ydynt ar gael er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cadw ar y trywydd iawn;
- Cymryd rhan amlwg mewn cyfarfodydd, gan rannu gwybodaeth yn agored,
- Rhannu gwybodaeth â'u sector cyn cyfarfodydd er mwyn casglu barn eu sector i lywio trafodaethau cyfarfodydd;
- Yn dilyn cyfarfodydd, mae gan aelodau gyfrifoldeb i ledaenu negeseuon cyson ymysg eu rhwydweithiau perthnasol a chyflwyno unrhyw faterion sy'n codi;
- Parchu barn aelodau eraill
- Gweithio mewn ffordd adeiladol i ddod o hyd i atebion os bydd anghytuneb.

### Ffyrdd o weithio

- Ysgrifenyddiaeth:
    - Darperir hyn gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru: Y Gangen Ecosystemau a Bioamrywiaeth Forol.
    - Fel arfer, bydd agendâu (a phapurau) yn cael eu dosbarthu 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod, a bydd cofnod o negeseuon a chamau gweithredu allweddol yn cael ei wneud o bob cyfarfod. Bydd y rhain yn cael eu rhannu â WMAAG [nawr PMAC] a byddant ar gael i'r cyhoedd ar wefan Llywodraeth Cymru.
    - Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol am waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.
- Cynnal cyfarfodydd:

- Mae tri chyfarfod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'u hymgorffori yn y broses ar gyfer nodi PCMau. Bydd Tîm y Prosiect yn cadw golwg ar hyn.
- Fformat a lleoliad:
  - Cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb i aelodau allu trafod ac ymgysylltu'n effeithiol. Ystyrir lleoliadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd yn y de, y canolbarth a'r gogledd.

**Llywodraethu a chyfrifoldebau prosiect**

Gweinidogion Cymru sy'n bennaf gyfrifol am ddynodi PCMau yn nyfroedd Cymru, ac mae angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer unrhyw PCMau a gynigir yn nyfroedd alltraeth Cymru, yn unol â Deddf Cymru 2017.


Sefydlwyd Tîm Prosiect PCMau sy'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur er mwyn helpu'r broses a gweithio ochr yn ochr â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Mae gan CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur rôl ddeuol. Byddant yn:

- Mynychu cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan ddarparu cymorth gwyddonol a thechnegol lle bo angen
- Yn darparu cyngor statudol i Lywodraeth Cymru ar y PCMau fydd yn cael eu cynnig i lenwi bylchau a sicrhau bod cynigion yn bodloni rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru i'r rhwydwaith.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fydd gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ar ôl ystyried:

- PCMau posibl sy'n cael eu cynnig gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen;
- Ymatebion i'r ymgynghoriad;
- Casgliadau'r Asesiadau Effaith a
- Cyngor statudol gan CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar PCMau posibl.




Ar ôl i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen nodi Parthau Cadwraeth Morol posibl, rhoddir gwybod i Grŵp Llywio Rheoli'r MPA am yr amcanion cadwraeth lefel uchel ac unrhyw fesurau rheoli posibl. Bydd gan Grŵp Llywio Rheoli'r MPA rôl barhaus ar ôl dynodi PCM i sicrhau ei fod yn cael ei reoli fel rhan o'r rhwydwaith ehangach o MPAs.

Ar ôl i Lywodraeth Cymru wneud argymhellion i Weinidogion Cymru ar y PCMau a gynigir, bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn dod i ben.

## Atodiad E. Ffynonellau Data

Rhestr o'r haenau data cychwynnol a ddefnyddir i nodi Meysydd Chwilio Eang.

Tabl 1. Data ecolegol

| Haenau Data | Data | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| **Data ecolegol** | Map cynefin eang yn EUNIS L3 (Data wedi'u fodelu a data arolwg) | Map Cyfun Moroedd y DU, JNCC[11] |
| | Cynefinoedd eraill a rhywogaethau anfudol a chyfyngedig eu symudedd<br>• Cymunedau bregus o sbyngau ac anthosoaid ar gynefinoedd creigiog islanw<br>• Cymunedau cwils môr a megaffawna tyrchol<br>• Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn<br>• Môr-wyntyll binc *Eunicella verrucosa*<br>• Ccosoen fawr *Arctica islandica*<br>• Llyngyren ddreiniog *Sabellaria spinulosa* | Data CNC ar cynefinoedd a rhywogaethau o Deddf yr Amgylchedd Adran 7 a OSPAR MapDataCymru[12] |

[11] https://jncc.gov.uk/our-work/marine-habitat-data-product-eunis-level-3-combined-map/
[12] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Adran 7 ac OSPAR: Cynefinoedd Morol | MapDataCymru (llyw.cymru)

Tabl 2: Ffynonellau data am seilwaith, gweithgareddau trwyddedig a chynefinoedd gwarchodedig a ddefnyddir i greu'r Haen Las o fewn y Meysydd Chwilio Eang

| Sector | Haen ddata | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| **Codi Agregau** | Ardaloedd trwyddedig | Ystad y Goron |
| | Ardal archwilio ac opsiynau | Ystad y Goron |
| | Trwyddedau carthu preifat | Llywodraeth Cymru |
| **Dyframaethu** | Ardaloedd gorchymyn unigol a rheoleiddiol | Llywodraeth Cymru |
| **Carthu a gwaredu** | safleoedd gwaredu trwyddedig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Ynni - Olew a Nwy** | ardaloedd cynhyrchu alltraeth | Swyddfa Hydrograffig y DU |
| | llwyfannau alltraeth | Awdurdod Olew a Nwy |
| | pennau ffynnon | Awdurdod Olew a Nwy |
| | Piblinellau | Awdurdod Olew a Nwy a Swyddfa Hydrograffig y DU |
| **Ynni - Ynni Adnewyddadwy - tonnau** | ardaloedd ar brydles | Ystad y Goron |
| **Ynni - Ynni Adnewyddadwy - ffrwd y llanw** | ardaloedd ar brydles | Ystad y Goron |
| **Ynni - Ynni Adnewyddadwy - gwynt** | ardaloedd ar brydles | Ystad y Goron |
| | Cyfyngiadau caled<br>Estyniadau newydd i ffermydd gwynt | Ystad y Goron |
| **Porthladdoedd a Llongau** | ardaloedd angori | Swyddfa Hydrograffig y DU |
| | dociau | Swyddfa Hydrograffig y DU |
| **Trwyddedu morol o fewn 12 milltir forol** | ardaloedd morol trwyddedig | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Trwyddedu morol y tu allan i 12 milltir forol** | ardaloedd morol trwyddedig | Y Sefydliad Rheoli Morol |
| **Cynefinoedd Atodiad I mewn safleoedd** | Erthygl 17 2018 yn adrodd ar gynefinoedd Atodiad I | Cyfoeth Naturiol Cymru |

## Atodiad F. Maint Lleiaf y Llain Hyfyw [13]

| Nodwedd | Maint y Llain Hyfyw |
|---|---|
| Gwely'r môr o dywod bras, graean a/neu gerrig | 5km |
| Gwely môr tywodlyd | 5km |
| Gwely môr lleidiog | 5km |
| Gwely'r môr sy'n gymysgedd o gerrig, graean, tywod a llaid | 5km |
| Cymunedau bregus o sbyngau ac anthosoaid ar gynefinoedd creigiog islanw | 0.5km |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | 1km |
| Cymunedau cwils môr a megaffawna tyrchol | 1km |
| Cocosen fawr | 0.5km |
| Môr-wyntyll binc | 5km |

[13] http://jncc.defra.gov.uk/pdf/100705_ENG_v10.pdf

## Atodiad G. Canllawiau ar ffiniau i ystyried gweithgarwch pysgota

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r pellter priodol i ymestyn ffin y safle os ystyrir bod nodweddion gwarchodedig yn sensitif i weithgarwch pysgota. Mae hyn yn seiliedig ar hyd rhaffau treillio cyffredinol (JNCC MNPG 2008[14]).[15]

| Dyfnder Dŵr | Cymhareb Hyd cadwyn dreillio: Dyfnder | Hyd bras cadwyn dreillio | Yr estyniad i ffin y cynefin o ddiddordeb |
|---|---|---|---|
| **Dyfroedd bas (≤25 m)** | **4:1** | **100 m ar ddyfnder o 25 m** | **4 x dyfnder gwirioneddol** |
| **Ysgafell gyfandirol (25-200 m)** | **3:1** | **600 m ar ddyfnder o 200 m** | **3 x dyfnder gwirioneddol** |
| **Dyfroedd dyfnion (200 i dros 1000 m)** | **2:1** | **2000m ar ddyfnder o 1000 m** | **2 x dyfnder gwirioneddol** |

(wedi'i gymryd o ganllawiau rhwydwaith Ecolegol, JNCC a Natural England, 2010)[16]

[14] JNCC MNPG. UK guidance on defining boundaries for marine SACs for Annex I habitats sites fully detached from the coast. Peterborough: JNCC Marine Natura Project Group, 2008
[15] SERAD. A fishing industry guide to offshore operators. Caeredin: Gweithrediaeth yr Alban, 2001
[16] http://jncc.defra.gov.uk/PDF/100705_ENG_v10.pdf

# Atodiad H. Cyflwyno data i gefnogi dynodi Parthau Cadwraeth Morol (PCMau)

Mae cael gafael ar ddata a gwybodaeth yn hanfodol i lwyddiant y prosiect hwn ar gyfer cwblhau'r rhwydwaith. Ni fydd yn bosibl nodi Parthau Cadwraeth Morol posibl heb wybodaeth gadarn am yr amgylchedd morol, ei werth o safbwynt ecolegol ac economaidd, a'i bwysigrwydd i ddefnyddwyr y môr.

Er mwyn sicrhau bod data'n ddigon cadarn i gefnogi dynodi safleoedd newydd, caiff ansawdd yr holl ddata eu hasesu a'u sgorio o 1 (isaf) i 3 (uchaf). Isod, rydym yn rhoi esboniad byr o'r fformat data gofynnol a'i fetadata cysylltiedig. Ceir rhagor o wybodaeth am y meini prawf a ddefnyddir i asesu ansawdd y data yn y tabl canlynol.

**Tabl 1: Meini prawf sylfaenol ar gyfer asesu ansawdd cofnodion data.**

| Sgôr Ansawdd | Meini Prawf |
|---|---|
| 3* | Casglwyd cofnodion data gan ddefnyddio safonau cymeradwy ac fe'u dehonglwyd gan arbenigwr priodol gan ddefnyddio a dogfennu safonau ansawdd. Mae lleoliad tystiolaeth ffotograffig wedi'i stampio ar y ddelwedd, mae'r dystiolaeth wedi cael ei dilysu a'i dehongli gan arbenigwr priodol. |
| 2* | Casglwyd cofnodion data drwy ddulliau wedi'u dogfennu ac fe'u dehonglwyd gan arbenigwr priodol, ond prin yw'r dystiolaeth bod safonau ansawdd wedi'u defnyddio. Prin yw'r wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer dehongli data. |
| 1 | Prin yw'r wybodaeth am sut y casglwyd, dilyswyd neu y dehonglwyd data; nodwyd y data gan anarbenigwyr. Data yn seiliedig ar wybodaeth leol neu wybodaeth anecdotaidd heb unrhyw wiriad atodol. |

*Lle mae cywirdeb y data o ran lleoliad yn bwysig (e.e. ar gyfer cofnodi nodwedd ger ffin gritigol) yna gellir gostwng gwerth eu hansawdd i adlewyrchu unrhyw ansicrwydd gofodol yn y cofnod. Gall ansicrwydd gofodol o'r fath roi'r cofnod y tu allan i ffin safle gan greu amheuaeth ynghylch presenoldeb y nodwedd yn y safle.

Ar gyfer samplau ffisegol, mae sgôr ansawdd o 3 fel arfer yn gofyn am ddata cyfesurynnau manwl sy'n sicrhau cywirdeb y lleoliad, lefel o arbenigedd i sicrhau rheolaeth ansawdd a Dadansoddiad Maint Gronynnau i nodi cynefinoedd gwaddod.

O ran delweddau, mae CNC a JNCC yn argymell o leiaf 5 llun gwahanol i gefnogi pob nodwedd, yn ddelfrydol dylid tynnu lluniau o'r ddaear fel llun 'pwynt', yn hytrach nag fel llun panoramig (gweler Ffigur 1).



**Ffigur 1. Enghraifft o luniau pwynt (chwith) a phanoramig (dde).**

Rhoddir sgôr o 3 i ddelweddau sy'n dangos y nodwedd o ddiddordeb yn glir ac yn ei gwneud yn hawdd ei hadnabod. Dylai pob delwedd fod â data cyfesurynnau sy'n nodi ei hunion leoliad. Os nad yw'r ddelwedd yn cynnwys data cyfesurynnau manwl neu os nad yw'r nodwedd yn glir ac yn hawdd ei hadnabod, yna caiff y ddelwedd sgôr o 2 neu'n is.

Bydd data o ansawdd uchel yn ennyn hyder cadarn ynghylch presenoldeb, maint a chyflwr nodwedd, fel y nodir yn Atodiad 1 o'r ddogfen 'Use of Evidence in the Welsh MCZ process' a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a JNCC (ar ffurf drafft). Os nad yw'r data a gyflwynir yn pasio'r asesiad ansawdd, ni ellir defnyddio'r data fel tystiolaeth ategol yn ystod proses nodi PCMau Cymru. At hynny, dylai'r holl ddata a gyflwynir ymwneud â nodweddion y diffyg fel y'u rhestrir yn Nhabl 1 y brif ddogfen.

Nod CNC a JNCC yw sicrhau bod yr holl ddata a ariennir yn gyhoeddus ar gael. Felly, lle y bo'n bosibl, bydd gwybodaeth nad yw'n sensitif ac yn gyfyngedig ar gael i'r cyhoedd o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Bydd Cytundeb Darparwr Data ar gael adeg cyflwyno'r adroddiad, gan sicrhau bod yr holl ddata sensitif yn cael eu trin â chyfyngiadau addas.

Mae Cytundeb Data yn gytundeb ffurfiol rhwng darparwr y data a derbynnydd y data ynghylch telerau ac amodau defnyddio a mynediad. Bydd y Cytundeb yn ei gwneud yn glir i'r ddau barti y sail ar gyfer cadw, defnyddio a rhannu'r data. Mae'n bwysig nodi, er y gall y cytundeb amrywio o e-bost syml i ddogfen gyfreithiol fanwl, ei fod yn ffurfiol a bod iddo statws cyfreithiol.

**Cyflwyno data**

Bydd galwadau am ddata yn cael eu gwneud i randdeiliaid drwy gydol proses nodi PCMau Cymru. Caiff gwybodaeth ei hystyried gan CNC a JNCC gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarperir yn y ddogfen Protocolau Tystiolaeth Parthau Cadwraeth Morol.

Dylai'r rhestr wirio cyflwyno data a chytundeb data cysylltiedig gael eu cwblhau gan drydydd partïon cyn cyflwyno eu data i gefnogi dynodi PCM. Mae'r rhestr wirio yn sicrhau mai dim ond data perthnasol sy'n cael eu cyflwyno i'w defnyddio ym mhroses dynodi PCMau Cymru.

**Rhestr wirio cyflwyno data.**

Gwiriwch y blwch priodol os ydych yn rhoi ateb cadarnhaol i'r cwestiynau canlynol:

1. **A yw'r data'n cyfeirio at 'nodwedd ddiffygiol' yn nyfroedd Cymru?** ☐
2. **A yw'r data wedi bod drwy broses Sicrhau Ansawdd?** ☐
3. **A yw'r data wedi'u cyhoeddi?** ☐
4. **A yw'r metadata ar gael yn rhwydd?** ☐
5. **Rwyf wedi darllen a chwblhau'r Cytundeb Darparwr Data?** ☐

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD GALWAD DATA

Os byddwch yn dewis darparu rhywfaint o ddata i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r galwad data hwn, bydd angen i Lywodraeth Cymru brosesu rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch. Mae angen eich gwybodaeth bersonol er mwyn cadw cofnod o bwy sydd wedi darparu data ac o bosibl cysylltu â chi i drafod y set(iau) data a ddarperir o fewn nodau Prosiect Cwblhau Rhwydwaith MPAs.

Llywodraeth Cymru fydd y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth bersonol chi mewn perthynas â chyflwyno data ar gyfer yr alwad data. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'ch data yw tasg gyhoeddus Llywodraeth Cymru, hynny yw, arfer ei hawdurdod swyddogol i ymgymryd â'r rôl a'r swyddogaethau craidd fel Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn prosesu'r wybodaeth ganlynol amdanoch:
- Enw
- Cyfeiriad E-bost
- Rhif Ffôn
- Enw'r sefydliad rydych yn ei gynrychioli

Gall y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol â rhanddeiliaid eraill yn y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â Phrosiect Cwblhau'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ond dim ond at ddibenion cyflawni nodau ac amcanion y prosiect.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyfnod o 3 blynedd yn unol â Pholisi Cadw Gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:
- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data (mewn rhai amgylchiadau)
- i 'ddileu' eich data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

### Cyswllt

Os hoffech drafod yr ymarfer galw data, cysylltwch â: mcz.wales@gov.wales

Am fanylion pellach am y wybodaeth mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw a'i defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru

Os hoffech gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House

Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Llinell gymorth: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/make-a-complaint/

**Cytundeb Darparwr Data**

Mae cyflwyno data i Lywodraeth Cymru yn ystod galwad ddata Parth Cadwraeth Morol Cymru yn cadarnhau cytundeb Perchennog y Data i roi caniatâd i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur gael gafael ar y deunydd, ei ddal a'i ddefnyddio at ddibenion llywio argymhellion, dynodi a rheoli Parthau Cadwraeth Morol ac Ardaloedd Gwarchodedig Morol cysylltiedig ymhellach. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig â'r cyflwyniad a gynhwysir ar y ffurflen cyflwyno data hon a/neu â metadata sy'n gysylltiedig â'r data a gyflwynwyd.

Rydym yn annog bod yn agored ac yn dryloyw wrth ddarparu a defnyddio data a gwybodaeth. Ein bwriad yw sicrhau bod yr holl ddeunydd sydd gennym ar gael i'r cyhoedd i'w ailddefnyddio o dan Drwydded Llywodraeth Agored OGL)1, ac eithrio gwybodaeth sy'n bersonol, yn sensitif neu'n gyfrinachol, neu sy'n cynnwys hawliau trydydd parti nad oes gennym awdurdod i'w trwyddedu. Lle na ellir rhyddhau deunydd o dan y Drwydded Llywodraeth Agored, hwyrach y byddwn yn dal i roi gwybodaeth lefel uchel am y data (e.e. metadata) ar gael i'r cyhoedd. Nodwch yn eich ymateb unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio'r wybodaeth a gyflwynwyd.

Mae Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi datblygu canllawiau arferion gorau ar gyfer darparwyr data ar gasglu a chyflwyno data i gefnogi dynodi Parthau Cadwraeth Morol. Mae'r canllawiau hyn i'w gweld ar ddechrau'r Atodiad hwn. Er y byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynir yn ystod yr alwad ddata hon, bydd dilyn y canllawiau yn helpu Llywodraeth Cymru i wneud y defnydd gorau o'r wybodaeth sydd ar gael.

Cyflwynwch y wybodaeth ganlynol ar gyfer data amgylcheddol a/neu economaidd-gymdeithasol sy'n cael eu cyflwyno. **Os na ddarperir y wybodaeth y gofynnir amdani, hwyrach na fyddwn yn gallu defnyddio'r data a gyflwynir gennych.**

| |
|---|
| Cytunaf â'r telerau a'r amodau yn y cytundeb darparwr data |
| Enw cyswllt3:<br><br>E-bost:<br><br>Rhif Ffôn: |
| Nodwedd, safle neu ardal ranbarthol Parthau Cadwraeth Morol sy'n berthnasol i'r data4: |
| A ydych eisoes wedi cyflwyno'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses Parthau Cadwraeth Morol5?<br><br>Noder nad oes gofyniad i gyflwyno adroddiadau na data sydd eisoes wedi'u cyflwyno oni bai eich bod am gyflwyno fersiwn fwy diweddar o unrhyw adroddiad. Ar gyfer data sydd eisoes wedi'i gyflwyno, rhowch fanylion gan gynnwys y cyfeirnod. |
| Cadarnhewch y gallwn ailddefnyddio'r data a ddarperir o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored, neu bennu unrhyw gyfyngiadau hawlfraint neu gyfyngiadau ar ddefnydd (gan gynnwys priodoli unrhyw hawliau trydydd parti yn y data): |
| Llofnod: |

**Adran 1: Data/tystiolaeth amgylcheddol**

| |
|---|
| Perchennog y data: |
| Math o arolwg (e.e. gwybodaeth geoffisegol/ymdrochi/geodechnegol/amgylcheddol /economaidd-gymdeithasol/cost): |
| Dyddiad yr arolwg: |
| Enw'r arolwg: |
| Cyfesurynnau arolwg NEU ar gyfer mapiau cwmpasu llawn, cyfesurynnau perimedr neu system GIS yr ardal: |
| Contractwr yr arolwg: |
| Diben yr arolwg: |
| Math(au) o ddata a gafwyd (e.e. geoffisegol/bathymetrig/geodechnegol/amgylcheddol/ agweddau ar ddata economaidd-gymdeithasol): |
| Dull(iau) caffael (e.e. 0.1m2 samplau cipio  Hamon/fformat arolwg): |
| Dull(iau) prosesu): |
| Allbwn/Allbynnau (rhowch enwau ffeiliau os oes modd): |
| Mae dull(iau) sicrhau/rheoli ansawdd yn cynnwys cyfeiriad at safonau lle bo hynny'n bosibl a / neu fanylion adolygiad gan gymheiriaid lle bo hynny'n berthnasol: |

**Adran 2: Data economaidd-gymdeithasol**

| |
|---|
| Perchennog y data: |
| Math o arolwg (e.e. gwybodaeth economaidd-gymdeithasol/cost): |
| Dyddiad yr arolwg: |
| Math(au) o ddata a gafwyd (e.e. agweddau ar ddata economaidd-gymdeithasol): |
| Dull(iau) caffael (fformat yr arolwg): |
| Mae dull(iau) sicrhau/rheoli ansawdd yn cynnwys cyfeiriad at safonau lle bo hynny'n bosibl a / neu fanylion adolygiad gan gymheiriaid lle bo hynny'n berthnasol: |
| Data economaidd-gymdeithasol heb ddod o'r arolwg (defnyddiwch y gofod hwn i ddisgrifio data, sut y crynhowyd y data, unrhyw broses sicrhau ansawdd) |